



Cyfarchion gan y Prif Ymchwilydd

Croeso i rifyn mis Mai 2018 cylchlythyr prosiect CorCenCC. Mae'r haul yn tywynnu, mae'r coed yn eu blodau ac rydyn ni'n ymbaratoi ar gyfer casglu



data ac ymgysylltu â'r cyhoedd drwy gydol yr haf. Gobeithio y byddwn ni'n dod i'ch bro cyn bo hir! Os oes diddordeb gyda chi ynglŷn

Cynnwys

T1: Newyddion

T3: Diweddariadau cyffredinol

T5: Cwrdd â'r tîm

T7: Cysylltu â ni



â dod i un o'n seminarau, helpu i gasglu data neu gymryd rhan yn y trawsgrifio cysylltwch â ni (mae'r manylion ar ddiwedd y cylchlythyr).

Yn rhifyn y mis hwn, mae gwybodaeth am nifer o gynadleddau academaidd lle rydyn ni wedi bod yn bresennol yn ddiweddar. Rydyn ni wedi teithio rhwng Iwerddon a Siapan i daenu'r efengyl am nodau ac amcanion y prosiect a rhoi'r diweddaraf am ein gwaith i bawb sy'n ymwneud ag ymchwil. Ceir holl fanylion prosiect gwladol WordNet Cymru, a ariannir gan Lywodraeth Cymru, hefyd, ynghyd â linciau i'r wefan - mae'n werth ei ddarllen! Yn olaf, ond nid lleiaf, caiff cyd-ymchwilydd y prosiect, Enlli Thomas, gyfle i'w chyflwyno ei hun i'r darllenwyr y mis hwn yn rhan o gyfres 'Dyma'r tîm'. Rwy'n addo y byddwch chi am gario'ch hen ganŵ yn ôl i Afon Taf ar ôl darllen ei darn hi!

Mwynhewch! Dawn

+ Newyddion a diqwyddiadau Symposium IVACS (24/02/18)

Ym mis Chwefror, ymunodd Mair a finnau â channoedd o gefnogwyr rygbi yn teithio dros Fôr Iwerddon i Ddulyn. Ond yn wahanol i'r teithwyr eraill ar yr awyren, doedden ni ddim yn mynd yno i weld y rygbi! Roedd symposiwm blynyddol IVACS (Inter-Varietal Applied Corpus Studies) yn cael ei gynnal ym Maynooth, y tu allan i Ddulyn, ac roedden ni yno i rannu ein profiadau o adeiladu corpws Cymraeg ag ymchwilydd sy'n adeiladu corpora Gwyddeleg.

Thema'r symposiwm oedd 'Ymchwil Corpws mewn Cyd-destunau Heriol', ac roedd hi'n ddiddorol dysgu bod yr ymchwilydd Gwyddelig yn wynebu heriau tebyg i'n rhai ni. Un o'r heriau mwyaf i ni yw esbonio wrth siaradwyr Cymraeg bod eu Cymraeg nhw'n ddigon da. Mae prosiect CorCenCC yn ceisio adlewyrchu sut mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio gan bobl yn eu bywydau pob dydd.

Dyn ni ddim yn chwilio am iaith arbennig – beth dyn ni eisiau yw Gymraeg 'go iawn'. **Felly rho dy Gymraeg i ni!**

Cawson ni groeso cynnes iawn ym Maynooth, a bydden ni wedi hoffi aros am fwy nag un noson (mewn llety oedd yn edrych fel Hogwarts!), ond rwy'n siŵr mai ond y dechrau oedd hwn o ran cydweithio'n agos â'n ffrindiau dros y môr.



Cyfarfod adolygu prosiect cyfan (28/03/18)

Ar 28^{ain} Mawrth, daeth 24 aelod o dîm y prosiect, gan gynnwys aelodau tîm y rheolwyr a'r cylch ymgynghorol, i Gaerdydd ar gyfer ail gyfarfod blynyddol adolygu'r prosiect cyfan.

Yn ystod rhan gyntaf y cyfarfod, cawson ni gyfle i ddweud ffarwel i hen aelodau, croesawu aelodau newydd a chlywed y diweddaraf am becynnau gwaith dros y 12 mis blaenorol. Dangoswyd CyTag, dull nodi rhannau o leferydd, ar waith (<http://cytag.corcenc.org>) yn ogystal â manylion rhaglen trin a thrafod ymholiadau. Bydd fersiwn haws ei ddefnyddio o'r ail ar gael maes o law - byddwn ni'n rhoi'r diweddaraf



Tîm prosiect CorCenCC

trwy'r wefan, Twitter a Facebook yn ystod y datblygu.

Yn ystod y prynhawn, rhoeson ni ragor o sylw i ddarpar ddefnyddwyr ac aelodau'r bwrdd ymgynghorol gan ystyried prif beryglon ac anawsterau tîm y prosiect, ffyrdd o ymgysylltu â'r to nesaf o ddefnyddwyr a sut y gallwn ni gynnal ac estyn y gwaith ardderchog sy'n mynd rhagddo ynglŷn â'r prosiect.

Rwy'n siŵr y bydd y tîm yn cytuno bod y cyfarfod yn un gwerthfawr ac ysgogol lle cawson ni gyfle i longyfarch pawb am y gwaith dyfal hyd yn hyn yn ogystal â rhoi cipolwg ar y pethau cyffrous sydd ar y gweill. Bydd rhagor maes o law!

Diolch yn fawr i bawb a ddaeth i'r cyfarfod a chyfrannu at ei lwyddiant, ac i'r rhai a gymerodd ran (yn ddwyieithog) o hirbell [gweler y llun].




Helpu cyfranogwyr o hirbell

Cynhadledd AFLiCo JET (3^{ydd} – 4^{ydd} Mai 2018)

Ar ôl ymdopi ag amryw streiciau gan y staff a phrotestiadau gan fyfyrwyr, cyrhaeddais Université Paris Nanterre i roi cyflwyniad gerbron sesiwn llawn cynhadledd Journée d'études AFLiCo JET (Cymdeithas Ieitheg Wybyddol Ffrainc) ynglŷn â chasglu a chynrychioli. Denodd y gynhadledd amrywiaeth o siaradwyr a chynadledwyr o

brifysgolion ledled Ffrainc a gweddill Ewrop, a thrafodwyd yno amryw bynciau megis 'trosiadau marwolaeth, afiechyd a rhyw yng nghasgliad sioe deledu' ac ystyried 'peryglon ac anawsterau cynrychioldeb' wrth lunio casgliad.

Yn ystod y sesiwn y bues i ynddo, trafodwyd rhai o anawsterau llunio a pharatoi casgliadau ar gyfer ieithoedd lleiafrifol yn sgîl profiad ein prosiect ni. Roedd y gynhadledd yn un drefnus a chyfeillgar a chododd fy mhapur ddigon i gnoi cil arno. Roedd derbyniad gwin a chaws y gynhadledd yn uchafbwynt, hefyd! Ar ben hynny, roedd peth amser i grwydro rhai o ardaloedd prifddinas heulog Ffrainc cyn teithio yn ôl i Gaerdydd a pharatoi ar gyfer ein hymweliad â Siapan (manyion isod). Hoffwn i ddiolch i bwyllgor trefnu'r gynhadledd am fy ngwahodd i gymryd rhan ynddi.



Y Dr Dawn Knight



Siaradwyr yn y sesiwnau llawn: Dawn a Thomas Egan (Prifysgol Gwyddorau Cymhwysol)

LREC 2018 (Cynhadledd Gwethuso Adnoddau Iaith 2018: 7-12/05/2018)



Roedd digon o heulwen a *mochi* (peli reis blasus) ar gael pan aeth aelodau o'r tîm i Miyazaki, Japan ar gyfer 11eg Gynhadledd Gwerthuso Adnoddau Iaith (LREC2018) rhwng 7^{fed} a 12^{fed} Mai. Dyma'r gynhadledd ryngwladol fwyaf o ran adnoddau iaith, a bu yno dros 1200 o ymchwilwyr ym meysydd ieithge gyfrifiadurol, prosesu iaith yn naturiol, chwilio testunau a dyniaethau digidol.

Cyflwynwyd amrywiaeth o bapurau a phosteri diddorol yn y gynhadledd, a phlannwyd hadau llawer o gydweithredu gwerthfawr ar gyfer y dyfodol. Mae pawb wedi elwa'n fawr ar y profiad.

Yn ystod prynhawn cyntaf y brif gynhadledd, cyflwynodd Scott Piao,

Paul Rayson a Dawn Knight boster (wedi'i lunio ar y cyd â Gareth Watkins) am raglen didoli semanteg y Gymraeg, sy'n deillio o'r gwaith ynghylch WP3. Disgrifiodd y poster waith paratoi geiriadur semanteg Cymraeg ynghyd â phroblemau all godi wrth drin a thrafod y Gymraeg. Dangosodd ein gwerthusiad fod ein ffordd o nodi rhannau o leferydd (CyTag) wedi gwella rhaglen didoli semanteg Pecyn Iaith Naturiol y Gymraeg. Meddai Paul Rayson, "Roedd adborth a sylw eang ynglŷn â'n gwaith mewn cynhadledd lle mae cryn dipyn o ddiddordeb mewn mathau o ieithoedd ac ieithoedd prin eu hadnoddau yn ddefnyddiol iawn." Ar y diwrnod olaf, cyflwynodd Dawn

Knight a Steve Neale boster (wedi'i lunio ar y cyd â Kevin Donnelly) ar raglen CyTag (sy'n nodi rhannau o leferydd yn y Gymraeg) a ddeilliodd o WP2 (mae rhagor o wybodaeth a chyfle i brofi'r rhaglen ar <http://cytag.corcenc.org>). Roedd cyfle i gael hwyl a mwynhau'r ardal hefyd - aeth Dawn am dro o gwmpas y cwrs golff sawl gwaith ac aethon ni am dro trwy'r ddinas yn aml i geisio dod o hyd i fwyd heb gig ar ei chyfer - gallai ysgolhaig o Gaerhirfryn, Mahmoud El-Haj, drosi'r bwydlenni o Siapanaege i Saesneg trwy gyfrwng rhaglen ffôn poced, er nad oedd y canlyniadau o gymorth bob tro. Trefnodd y gynhadledd nifer o weithgareddau cymdeithasu megis ymweld â chysegrfa i ymerawdwr cyntaf

Siapan, lle yfon ni ddigon o win reis.

Y Doethuriaid Paul Rayson, Scott Piao, Steven Neale a Dawn Knight



+ Diweddariadau cyffredinol

WordNet
Cymru

Steven Neale

Fis diwethaf, cwblhaodd tri o aelodau'r tîm - Irena Spasic, Steven Neale a Dawn Knight - orchwyl ar gyfer prosiect WordNet Cymraeg, sydd ar waith ers tri mis ochr yn ochr â phrosiect CorCenCC. Mae WordNet Cymraeg yn gronfa ddata o enwau, berfau, ansoddeiriau ac adferfau Cymraeg wedi'u trefnu ar ffurf setiau o gyfystyron ac wedi'u cysylltu â'i gilydd yn ôl amryw nodweddion eiriadurol a semantaidd sy'n gyffredin. Mae'n defnyddio'r un dull â rhaglenni WordNet mewn ieithoedd eraill ac mae rhaglenni o'r fath wedi bod yn hanfodol ynglŷn â

phennu ystyr geiriau yng ngorchwyllion prosesu iaith naturiol megis diffinio geiriau a chrynhoi testunau.

Mae WordNet Cymraeg wedi'i lunio dros dri mis, ac roedd yn dda gyda ni gael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru yn rhan o gynllun Grant Cymraeg 2050. Yn unol â'r tueddiadau diweddaraf ynglŷn â chreu rhaglenni o'r fath yn awtomatig, rydyn ni wedi defnyddio gwybodaeth roes ein cyfeillion sy'n ymwneud â Geiriadur Prifysgol Cymru i gyfieithu geiriau o'r fersiwn Saesneg i'r un Cymraeg a'u trefnu wedyn ar ffurf setiau o gyfystyron Cymraeg wedi'u seilio ar strwythur gwreiddiol WordNet English. Rydyn ni'n fodlon iawn ar y fersiwn Cymraeg sy'n cwmpasu tua 67% o'r hyn a ystyrir yn setiau cyfystyron 'craidd' ar gyfer iaith newydd - rhyw 5,000 o'r syniadau mwyaf cyffredin a chanddynt y cysylltiadau cryfach â setiau eraill o gyfystyron.

At hynny, cawson ni gyfle i ddangos ein gwaith ni gerbron yr arianwyr yn rhan o achlysur Cymru Arloesol yn ddiweddar yn adeilad Tramshed Tech, Caerdydd, lle y cyflwynodd nifer o brosiectau sydd o dan nawdd Grant Cymraeg 2050 eu cynnydd. Roedd yn galonogol bod yno a gweld y ffyrdd cyffrous mae pobl yn gyrru datblygiad technoleg y Gymraeg, ac roedd yn dda fod yn bresennol ar gyfer cyflwyniad un o'n cydweithwyr, Steven Neale, am hynt WordNet Cymraeg a'r gwerth mae'n ei gynnig yn y maes hwnnw. Mae'n gyfnod cyffrous o ran llunio technoleg sy'n gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg, a bydd rôl bwysig i ddulliau prosesu iaith naturiol yn hynny o beth. Mae rhagor am WordNet Cymraeg ar <http://users.cs.cf.ac.uk/I.Spasic/wncy/index.html> ac mae modd dechrau defnyddio WordNet Cymraeg ar <https://github.com/CorCenCC/wncy>



Ers yr adroddiad diwethaf yn rhifyn 13, fis Medi, mae tîm WP4 wedi bod yn ymgynghori ag athrawon a dysgwyr Cymraeg i hel eu sylwadau am ein bwriad ynglŷn â'r pecyn. Bellach, rydyn ni wedi casglu sylwadau dros 40 o athrawon a thiworiaid Cymraeg trwy holiaduron yn ogystal â chwrdd â 55 o athrawon/tiworiaid a 14 dysgwr mewn cylchoedd trafod. Ar ôl creu'r pecyn, byddwn ni'n ailgydio yn yr ymgynghori gan ddangos y nodweddion a hel adborth dysgwyr ac athrawon amdanynt. Mae gwaith technegol a chreadigol wedi dechrau ynglŷn â

Y diweddaraf am WP4: Nod – pennu ehangder pecyn addysgeg ar y we a'i lunio (gweithiwr arwain: Enlli Thomas)



dwyr brif elfen y pecyn:

- (1) Rydyn ni'n ddiolchgar iawn i Anelia Kurteva, myfyriwr yn Ysgol Cyfrifiadureg a Gwybodeg Prifysgol Caerdydd o dan oruchwyliaeth yr Athro Irena Spasić, sydd wedi bod yn llunio nodweddion y pecyn. Wrth eu dylunio, cawson ni ein hysbrydoli gan waith rhagorol yr Athro Tom Cobb (ymgyngorydd i brosiect CorCenCC), LexTutor (<https://lextutor.ca/>). Mae'r cylchoedd trafod wedi dangos inni pa nodweddion fydd fwyaf defnyddiol i athrawon a dysgwyr Cymraeg ac mae Anelia wedi mynd ati i lunio rhai deniadol, hawdd eu defnyddio. Diolch yn fawr, Anelia!
- (2) I ddangos sut y bydd athrawon a dysgwyr yn gallu defnyddio'r casgliad i ddysgu geirfa, gramadeg ac ati, rydyn ni wedi bod yn ysgrifennu deunyddiau enghreifftiol a fydd yn ymddangos ar wefan pecyn yr addysgeg. Rydyn ni'n gobeithio y bydd y rheiny'n ysgogi defnyddwyr i lunio eu deunyddiau eu hunain. Er enghraifft, bydd modd defnyddio'r

casgliad i astudio cenedl enwau a'r gwahanol ffyrdd y bydd geiriau eraill yn y frawddeg yn gwneud cenedl enw yn amlwg. Rydyn ni'n edrych ymlaen yn eiddgar at ddangos fersiwn cyntaf y pecyn gerbron dysgwyr ac athrawon ymhen rhai misoedd. Nid dim ond i ddysgwyr y bydd y casgliad o gymorth, fodd bynnag. Pa bethau rydych chi'n tueddu i'w hanghofio a'u hadolygu wrth ysgrifennu yn Gymraeg? Pa arddodiad ddaw ar ôl 'falch', efallai? Neu a oes angen treiglo ar ôl 'rhai'? Gwelwch chi'r atebion i'r cwestiynau hynny a sawl un arall trwy edrych ar frawddegau yn y casgliad a nodi sut mae pobl eraill wedi defnyddio'r geiriau o dan sylw. Mae croeso ichi gysylltu â ni yn y cyfamser (corcencc@cardiff.ac.uk) i ddweud sut y byddwch chi'n defnyddio'r casgliad. Am beth y byddwch chi'n chwilio?



Hwrê i'r Pencampwyr Penigamp!

Croeso cynnes iawn i'n criw o bencampwr newydd! Mae'r pencampwyr yn bobl gyffredin (ond arbennig!) hyd a lled Cymru sydd wedi cytuno i'n cynorthwyo i gasglu data drwy recordio sgyrsiau â ffrindiau, aelodau o'r teulu, cymdogion, cydweithwyr ayb. Yn eu plith mae Ann Lloyd-Biston sy'n byw gyda'i gŵr, ei mab a'i merch ym Mhontarddulais. Mae Ann yn gweithio i'r GIG ond mae ganddi fywyd cymdeithasol prysur hefyd. Ei cariad mawr yw canu ac mae hi'n aelod o ddau gôr, Parti Llwchwr a Chôr y Scarlets. Gyda bywyd mor llawn, pam mae Ann wedi penderfynu bod yn bencampwr i CorCenCC? 'Mae'r Gymraeg yn agos iawn at fy nghalon, mae'n rhan greiddiol o fy hunaniaeth. Dwi'n hen gyfarwydd â gofalu am iechyd pobl fel rhan o fy ngwaith, ond mae iechyd y Gymraeg yn hollbwysig i fi hefyd. Dw i'n meddwl bod CorCenCC yn brosiect pwysig sy'n mynd i fod yn gefn i'r iaith. Wrth gytuno i fod yn bencampwr dw i'n gobeithio fy mod i'n cyfrannu mewn ffordd fach at ddiogelu'r iaith ac at wneud yn siŵr ei bod yn iach ac yn heini ar gyfer fy mhlant a phlant fy mhlant. A dweud y gwir, mae recordio fy ffrindiau'n mynd i fod yn dipyn o hwyl hefyd!' Os hoffech chi fod yn bencampwr, bydd tîm CorCenCC yn falch iawn o glywed gennych.

+ Cwrdd â'r tîm: Enlli Thomas, cyd-ymchwilydd, Prifysgol Bangor

Gan mai Enlli yw fy enw i, ydy'n ddiogel tybio fy mod yn hanu o Ben Llŷn? Nac ydy! Ganol y 1970au, dewisodd fy rhieni gydio yn yr hen arfer o enwi plant ar ôl lleoedd o arwyddocâd personol (efallai iddyn nhw benderfynu gwneud hynny ar ôl dod i'r casgliad bod enw eu plentyn cyntaf, Delwyn Graham, braidd yn ddi-nod) ac, o ganlyniad, *Enlli Môn* yw fy enwau bedydd. Does dim byd o'i le ynglŷn â bod yn gysylltiedig â Phen Llŷn, ac rwy'n hoffi *Enlli* yn enw a dweud y gwir, ond does unrhyw arwyddocâd daearyddol na theuluol iddo heblaw'r ffaith bod fy nhad yn ei hoffi rywfaint. Er fy mod yn falch iawn o fod yn ogleddwraig a bod y ffaith imi gael fy enwi ar ôl dwy ynys brydferth yn y gogledd wedi bod o gymorth mewn sawl sgwrs ddechreuol wrth gymdeithasu dros y blynnydoedd, rwy'n falchach fyth o fod yn wir Fochyn Môn o Lanfairpwll ac, felly, 'Môn' yw'r unig beth a chanddo unrhyw arwyddocâd go iawn i mi yn fy enw, mewn gwirionedd.



Ond, rywsut, mae *Enlli* neu *Enlli Môn* yn enw bedydd (Thomas yw'r cyfenw ond digon am hynny am y tro) wedi fy nghadw'n effro bob amser i'm gwreiddiau a'm cynhysgaeth ynglŷn â'r Gymraeg a sbarduno diddordeb gydol oes yn yr iaith. Gan fod ynganu *Enlli* wastad yn anodd i'r rhai di Gymraeg wrth fy nghyflwyno fy hun a bod angen mynnu'r *to bach* wrth ddefnyddio Môn mewn unrhyw beth cyfreithiol neu ddigidol ers dyddiau'r ysgol, rwyf i wedi bod yn effro iawn drwy gydol fy oes i faterion gwleidyddol, teimladol ac addysgol sy'n ymwneud ag ieithoedd gan gynnwys y modd y bydd ieithoedd yn dylanwadu ar eich meddwl a'ch ymddygiad.

Felly, ar ôl pennu'r pethau oedd o wir ddiddordeb i mi, sut y byddwn i'n datblygu gyrfa ynddyn nhw? Gan nad oedd llawer o ddiddordeb gen i mewn llenyddiaeth Gymraeg nac ysgrifennu creadigol, fyddai gradd yn y Gymraeg ddim o les (roeddwn i wedi'i hastudio ar gyfer y Safon Uwch ond papur yr iaith, nid un y llenyddiaeth, oedd orau gen i). (Roeddwn i wedi astudio cerddoriaeth a mathemateg hefyd, ond allwn i ddim dychmygu treulio tair blynedd yn y brifysgol wrth y piano, mewn ymarferion cerddorfaol neu'n ceisio trin a thrafod syniadau mathemategol haniaethol.) Ar wahân i ddysgu peth Ffrangeg ac Almaeneg yn yr ysgol, doeddwn i erioed wedi mynd ati o ddifrif i astudio iaith ac, felly, des i'r casgliad na ddylwn i ddewis ieitheg, chwaith. Beth arall, felly? Am ryw reswm, dechreuais i feddwl am therapi lleferydd ac iaith. Yn y maes hwnnw, gallwn i astudio iaith er mwyn defnyddio'r

hyn y byddwn i'n ei ddysgu er lles pobl mewn amryw amgylchiadau, gan wella byd rhai o dipyn, hyd yn oed. Felly, es i hen Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd, ar gyfer cyfweliad. Roedd y cyfweliad yn llwyddiannus, mwynheais y sgysiau am y Gymraeg a phobl ddwyieithog a dechreuais i edrych ymlaen at astudio yn y maes hwnnw. Doedd y campws ddim at fy nant, fodd bynnag, ac roeddwn i o'r farn na fyddai gradd o'r fath yn agor llawer o ddrysau o ran swyddi (therapydd iaith a lleferydd fyddwn i wedyn) er bod rhaid cyfaddef fy mod braidd yn anwybodus bryd hynny. Gan nad oedd yr un coleg arall yma yn cynnig y radd honno (roeddwn i'n benderfynol o astudio yng Nghymru), yr Athrofa oedd yr unig ddewis. O ganlyniad, penderfynais ystyried gyrfa arall.

Felly, pa bwnc fyddai'n gweddu i'm diddordebau ac yn cynnig y math o hyblygrwydd mae plant y Dyfrwr yn ei fynnu? Seicoleg. Roedd seicoleg yn boblogaidd iawn yn ystod y 1990au ac roedd llawer o fyfyrwyr ac adnoddau ar ei chyfer - gallwn i ystyried iaith o safbwynt y defnyddiwr yn ogystal â pharhau i astudio ystadegau a thrin a thrafod ffigurau. Perffaith! A dyna wnes i. Dilynais gwrs yn ôl fy niddordeb ieithyddol gan lunio fy nhraethawd terfynol am nodweddion gwybyddol dwyieithrwydd - roeddwn i'n ffodus iawn bod dau ieithydd rhagorol yn yr ysgol yn ystod fy mlwyddyn olaf ac fe roeson nhw eu cymorth yn ystod fy ymchwil ar gyfer doethuriaeth wedyn pan astudiais y modd mae plant

Cymraeg yn dod i wybod cenedl enwau yn eu mamiaith. Aeth fy ngyrfa rhagddi yn sgîl hynny.

Ers dros 20 mlynedd, mae wedi bod yn bleser cymryd rhan mewn amryw astudiaethau ymchwil noddedig ynglŷn â materion seicoieithyddol, sosioieithyddol ac addysgol - mae thema amlwg ym mhob astudiaeth o'r fath, sef: y Gymraeg. Bu'r gwaith hwnnw'n ymwneud â gwahanol boblogaethau dwyieithog (Cymraeg-Saesneg, Cymraeg-Almaeneg, Cymraeg-Sbaeneg; teuluoedd, plant, pobl ifanc, oedolion; plant ac oedolion sy'n datblygu'n naturiol; oedolion ac arnynt glefyd Parkinson, oedolion sy'n dioddef â dryswch y meddwl, plant ac arnynt anawsterau llythrennedd) a defnyddio amrywiaeth o ddulliau ymchwil a dadansoddi gan arwain at allbynnau academiaidd ac ymarferol (profion geirfa safonol; adnoddau monitro iaith i'r ysgolion) er lles yr iaith a'r rhai sy'n ei siarad.

Gan fanteisio ar ehangder fy mhrofiad o ystyried y ffactorau sy'n hwyluso ac yn rhwystro datblygiad ieithyddol, yn arbennig yng nghydestun ieithoedd lleiafrifol, fy rôl yn y prosiect hwn yw llywio gwaith llunio pecyn addysgeg er cymorth i'r rhai sydd wrthi'n dysgu neu'n defnyddio Cymraeg. Rwyf i wrth fy modd yn y prosiect gwych hwn ac rwy'n gobeithio parhau â hyn o gydweithredu ar ôl i'r prosiect ddod I ben.



+ Cysylltu â ni

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau'r prosiect hefyd ar gael drwy Facebook:

www.facebook.com/CorCenCC/; Twitter <https://twitter.com/corcencc> (gallwch ein trydar @CorCenCC). Gallwch hefyd gysylltu â ni drwy anfon neges i gyfeiriad ebost y prosiect: corcencc@caerdydd.ac.uk neu ewch i'n gwefan, sef:

www.corcencc.cymru



Arts & Humanities Research Council

Mae CorCenCC yn brosiect ymchwil a ariennir gan ESRC/AHRC (Grant Rhif ES/M011348/1). Mae tîm CorCenCC yn cynnwys y Prif Ymchwilydd - Dawn Knight; y Cyd-Ymchwilydwr - Tess Fitzpatrick, Steve Morris, Irena Spasić, Paul Rayson, Enlli Thomas a Jonathan Morris; y Cynorthwydwr Ymchwil - Steven Neale, Jennifer Needs, Mair Rees, Scott Piao a Lowri Williams; y myfyriwr PhD - Vigneshwaran Muralidaran a Bethan Tovey; Ymgynghorwyr - Kevin Donnelly, Kevin Scannell, Laurence Anthony, Tom Cobb, Michael McCarthy a Margaret Deuchar; Grŵp Ymgynghorol y Prosiect - Colin Williams, Karen Corrigan, Llion Jones, Maggie Tallerman, Mair Parry-Jones, Gwen Awbery, Emyr Davies (CBAC-WJEC), Gareth Morlais (Llywodraeth Cymru), Owain Roberts (Llyfrgell Genedlaethol Cymru), Aran Jones (Saysomethingin.com) ac Andrew Hawke (Geiriadur Prifysgol Cymru). Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau am gynnwys y cylchlythyr hwn, cysylltwch â Dr Dawn Knight: KnightD5@caerdydd.ac.uk